

Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Meddygaeth Niwclear ac Uned
PET-CT Symudol, Ysbyty Singleton,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystywyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	26
4. Y camau nesaf.....	32
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	33
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	34
Atodiad C - Cynllun gwella	35

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) lle rhoddwyd rhybudd, o'r Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol yn Ysbyty Singleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 10 a 11 Hydref 2023. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran a'r uned symudol yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC a dau Gynghorydd Gwyddonol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 27 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 25 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o fynychu'r Adran Meddygaeth Niwclear neu'r uned PET-CT symudol.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd. Roedd yr adborth gan gleifion hefyd yn cefnogi hyn. Gwelsom hefyd fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth ac wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent yn eu gofal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod deunydd hybu iechyd perthnasol ar gael i gleifion sy'n mynychu ar gyfer sgan PET-CT
- Mae angen i'r bwrdd iechyd annog staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodynau neu laniardau i ddangos eu bod yn hapus i gyfathrebu yn Gymraeg.
- Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol y dylent ofyn i'r cleifion am yr iaith yr hoffent gyfathrebu drwyddi bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth a sylwadau cadarnhaol am agwedd a dull gweithredu'r staff sy'n gofalu amdanynt
- Dywedodd y cleifion wrthym nad oedd yn rhaid iddynt aros yn hir am eu harchwiliad neu sgan.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd lefelau cydymffurfiaeth da â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 ym mhob rhan o'r Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol.

Gwelsom hefyd fod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol adolygu a diweddarau rhai o'u gweithdrefnau ysgrifenedig i sicrhau eu bod yn gliriach ac adlewyrchu'r trefniadau ymarferol a ddisgrifiwyd
- Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear wneud trefniadau i ddangos yn glir ganlyniad archwiliadau clinigol, y camau i'w cymryd, yr unigolyn cyfrifol a'r dyddiad ar gyfer cwblhau.
- Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol wneud trefniadau i gynnal yr archwiliad clinigol yn unol â diffiniad IR(ME)R 2017.
- Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol sicrhau bod y rhestr o gyfarpar yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan IR(ME)R 2017.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparodd uwch aelodau o'r staff sy'n gweithio i'r Adran Meddygaeth Niwclear enghreifftiau da o archwiliadau clinigol a gwelsom enghraifft dda o optimeiddio ar gyfer archwiliadau parathyroid o ganlyniad i weithgarwch archwilio.
- Darparodd uwch aelodau o'r staff ar gyfer yr uned PET-CT symudol enghreifftiau da o ddysgu o ddigwyddiadau ac 'achosion a fu bron â digwydd'.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nid oedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ei gyfleusterau ei hun i ddarparu gwasanaeth PET-CT. Darparwyd hyn ar ran y bwrdd iechyd gan InHealth, sef darparwr gofal iechyd annibynnol, gan ddefnyddio uned PET-CT symudol a oedd yn ymweld â safle'r ysbyty yn rheolaidd.

Prif Weithredwyr y ddau sefydliad oedd y cyflogwyr dynodedig o dan IR(ME)R 2017. Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, byddai'r ddogfen lywodraethu sy'n gosod y trefniadau ymarferol a llywodraethu yn elwa ar gael eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r rhai a ddisgrifiwyd yn gywir.

Roedd yr adborth gan staff mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y sefydliadau roeddent yn gweithio iddynt yn gadarnhaol ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae angen i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear a chyflogwr yr uned PET-CT symudol wneud trefniadau i ddangos bod staff yn parhau i fod yn gymwys i gyflawni eu rolau fel deiliaid dyletswydd

- Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i ddangos sut mae adborth cleifion wedi'i ddefnyddio i wneud newidiadau
- Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion systemau atebolrwydd ar gael i'r cleifion, megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a LLAIS, er mwyn i gleifion allu codi pryderon neu gwynion am y gwasanaeth PET-CT symudol a ddarperir yn yr ysbyty.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd adborth y staff o ran rheoli ac arwain y sefydliadau roeddent yn gweithio iddynt, yn gadarnhaol ar y cyfan
- Disgrifiwyd trefniadau addas ac effeithiol er mwyn ceisio adborth gan gleifion, ar gyfer rheoli pryderon a chwynion, ac i weithredu ar y rhain i wneud gwelliannau lle bo angen
- Disgrifiwyd a dangoswyd cydberthynas waith effeithiol rhwng y bwrdd iechyd a'r darparwr annibynnol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol ym mhob maes a ystyriwyd, gyda phob ymatebydd a wnaeth ateb y cwestiwn (26/26) yn nodi bod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Roedd y staff yn gyfeillgar a pharod eu cymwynas a rhoesant dawelwch meddwl i mi, gan wneud y profiad yn haws"

"Staff cyfeillgar a sylwgar, cyfleusterau glân a newydd"

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr ardaloedd aros yn yr Adran Meddygaeth Niwclear. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision peidio ag ysmygu.

Roedd llai o ddeunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros ar wahân (wedi'i leoli yn y prif ysbyty) a ddefnyddir gan gleifion sy'n aros am eu sgan yn yr uned PET-CT symudol.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod deunydd hybu iechyd perthnasol ar gael yn hawdd i gleifion sy'n mynychu i gael sgan PET-CT.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion sy'n dod i'r Adran Meddygaeth Niwclear neu'r uned PET-CT symudol.

Gwelsom fod yr holl staff yn trin cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd.

Dywedodd pawb a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd pob un o'r rhai a atebodd y cwestiwn (26/26) wrthym fod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu ei breifatrwydd.

Dyweddod pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym hefyd fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal.

Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn

Dyweddod yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt hwy eu hunain ar ôl eu harchwiliad neu sgan. Yn ogystal, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC (22/25) wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor yn dilyn eu harchwiliad neu sgan.

Dyweddod pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC (26/26) wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu harchwiliad neu sgan. Yn yr un modd, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud, a bod y staff wedi gwranddo arnynt ac ateb eu cwestiynau.

Dyweddod pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym hefyd fod y cleifion yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal.

Dyweddod pob un o'r staff wrthym hefyd eu bod yn fodlon ar safon y gofal a'r cymorth maent yn eu rhoi i'r cleifion. Yn ogystal, dywedodd bron pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad petai angen triniaeth arnynt, neu ar ffrind neu deulu.

Amserol

Gofal Amserol

Dyweddod y staff wrthym nad oedd yn rhaid i'r cleifion aros yn hir am eu harchwiliad ar ôl cyrraedd yr ysbyty fel arfer. Pan oedd oedi annisgwyl, dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn rhoi gwybod i'r cleifion am y rhain a byddent yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Dyweddod y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (26/27) wrthym eu bod o'r farn bod yr amser aros rhwng atgyfeiriad a'u hapwyntiad yn rhesymol. Yn ogystal, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (23/25) wrthym eu bod yn cael gwybod pa mor hir y byddent yn debygol o orfod aros cyn cael eu gweld.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom arwyddion dwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, yn cael eu harddangos yn yr Adran Meddygaeth Niwclear.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn yr Adran Meddygaeth Niwclear yn gallu siarad Cymraeg. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn gwisgo bathodynau neu wedi cael symbolau wedi'u brodio ar eu gwisgoedd er mwyn dangos i gleifion eu bod yn siarad Cymraeg.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (18/23) wrthym nad oeddent yn siarad Cymraeg. Pan ofynnwyd a oeddent yn gwisgo bathodyn neu laniard i ddweud wrth y cleifion eu bod yn fodlon cyfathrebu yn y Gymraeg, dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn (5/7) wrthym nad oeddent. Dywedodd y gweddill wrthym eu bod (1/7) neu eu bod yn gwneud weithiau (1/7).

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i annog y staff hynny sy'n hapus i wneud hynny i wisgo bathodyn neu laniard er mwyn dangos i'r cleifion eu bod yn hapus cyfathrebu yn Gymraeg.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y caiff dewis iaith cleifion ei gadarnhau cyn mynychu ar gyfer eu harchwiliad neu sgan. Fodd bynnag, nododd ymatebion y staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC nad yw hyn yn digwydd bob amser, gyda'r rhan fwyaf yn dweud 'Nac ydy' (3/7) a rhai yn dweud 'Weithiau'.

Mae angen i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn ymwybodol y dylent ofyn i'r cleifion am yr iaith yr hoffent gyfathrebu drwyddi bob amser.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Lle y bo'n ofynnol, dywedodd y staff wrthym y gallent ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu i hwyluso cyfathrebu â'r cleifion nad Saesneg oedd eu mamiaith.

Roedd posterï wedi'u harddangos yn glir yn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n feichiog neu a allai fod yn feichiog neu sy'n bwydo ar y fron, y dylent hysbysu'r staff cyn cael archwiliad neu sgan. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg a defnyddiwyd pictogramau addas hefyd.

Dywedwyd wrthym fod llyfrynnau gwybodaeth wedi'u rhoi i gleifion cyn mynychu'r Adran Meddygaeth Niwclear neu'r uned PET-CT symudol. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth i gleifion am beth i ddisgwyl wrth fynychu ar gyfer eu harchwiliad neu sgan. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd eu bod wedi egluro i gleifion ar lafar beth i'w ddisgwyl cyn iddynt gael eu harchwiliad neu sgan.

Cafodd posteri eu harddangos yn glir yn yr ardaloedd aros hefyd, gan gynghori cleifion o fanteision cael yr archwiliad neu'r sgan (cysylltiad) a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos ymbelydredd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod y staff sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol yn darparu gofal mewn ffordd a oedd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau'r cleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod eu sefydliadau yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol eu sefydliad.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym (24/25) nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth a ddarperir gan yr Adran Meddygaeth Niwclear neu'r uned PET-CT symudol.

Dywedodd y mwyafrif a atebodd y cwestiwn wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Dywedodd y gweddill wrthym na allent wneud hyn (2/25) neu ei bod yn well ganddynt beidio â dweud (1/25).

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau'r Cyflogwr: Sefydlu Gweithdrefnau, Protocolau a Rhaglenni Sicrhau Ansawdd Cyffredinol

Gweithdrefnau a Phrotocolau

Roedd y cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol wedi sefydlu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Dywedwyd wrthym fod rhai o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sydd ar waith ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear wedi'u defnyddio gan yr uned PET-CT symudol hefyd. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth PET-CT o fewn dogfen lywodraethu (gweler adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn) ac roedd hyn yn cynnwys rhestr o ba un o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr oedd yn gymwys.

Disgrifiwyd trefniadau addas i sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a ddefnyddir yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol. Roedd gan y cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol weithdrefnau ysgrifenedig yn hyn o beth.

Roedd y sampl o weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a welsom yn cynnwys dull rheoli dogfennau addas.

Canllawiau Atgyfeirio

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau ar gyfer archwiliadau yn yr Adran Meddygaeth Niwclear ac ar gyfer sganiau yn yr uned PET-CT symudol wedi'u trefnu a'u rheoli gan y bwrdd iechyd.

Felly, roedd gan y cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear gyfrifoldeb i sefydlu canllawiau atgyfeirio ac i sicrhau bod y rhain ar gael i'r atgyfeirwyr sydd â hawliau.

Roedd y cyflogwr wedi sefydlu canllawiau atgyfeirio ar gyfer archwiliadau a oedd yn cael eu cyflawni yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a sganiau a oedd yn cael eu cyflawni yn yr uned PET-CT symudol. Roedd trefniadau addas wedi'u nodi i sicrhau bod y rhain ar gael i'r unigolion sydd â hawl i atgyfeirio. Fodd bynnag, gwnaethom

gadarnhau nad oes canllawiau atgyfeirio ar waith ar gyfer therapi meddygaeth niwclear.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sefydlu canllawiau atgyfeirio ar gyfer therapi meddygaeth niwclear ac i sicrhau bod y rhain ar gael i'r atgyfeirwyr perthnasol.

Lefelau Cyfeirio Diagnostig

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith ar gyfer defnyddio ac adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau meddygaeth niwclear a oedd yn cael eu cyflawni yn yr Adran Meddygaeth Niwclear. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y dylai'r tabl lefelau cyfeirio diagnostig o fewn y weithdrefn ysgrifenedig gynnwys yr ystod fwyaf ac isaf o weithgarwch a roddwyd ar gyfer pob gweithdrefn, yn hytrach na chanrannau er mwyn rhoi mwy o eglurder.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gynnwys ystod fwyaf ac isaf y gweithgarwch a roddwyd o fewn gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr i ddefnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar wahân ac addas ar waith hefyd ar gyfer sganiau a oedd yn cael eu cyflawni yn yr uned PET-CT symudol.

Gwnaethom gadarnhau bod lefelau cyfeirio diagnostig lleol yn cael eu sefydlu ar gyfer archwiliadau meddygaeth niwclear ac ar gyfer sganiau PET-CT. Roedd y rhain yn gyfwerth â'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol neu islaw'r lefelau. Nodwyd bod yr arfer hon yn ganmoladwy.

Gwnaethom gadarnhau bod yr archwiliadau lefelau cyfeirio diagnostig a oedd yn cael eu cynnal yn ystyried pob gweinyddiaeth ym mhob safle y mae'r uned PET-CT yn ei fynychu. Hwyrach yr hoffai'r uwch-aelodau o staff ystyried cynnal archwiliadau lefelau cyfeirio diagnostig yn lleol ar gyfer y gweinyddiaethau cleifion sy'n cael eu cyflawni ar safle Ysbyty Singleton yn unig.

Ymchwil Feddygol

Dywedwyd wrthym fod gwaith ymchwil sy'n cynnwys cysylltiad meddygol yn cael ei gynnal yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol.

Cafodd trefniadau llywodraethu addas eu disgrifio ar gyfer treialon ymchwil, gydag ymglymiad priodol Arbenigwyr Ffiseg Feddygol. Roedd y rhain yn cynnwys prosesau i sicrhau bod trwyddedau cyflogwyr ac ymarferwyr priodol ar waith. Disgrifiwyd

trefniadau addas hefyd i reoli treialon clinigol, gan gynnwys dynodi atgyfeirwyr yn gywir a dewis y protocol perthnasol i'w ddefnyddio yn gywir.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith, sy'n disgrifio'r trefniadau llywodraethu hyn, ar gyfer cysylltiadau meddygol a gynhaliwyd at ddibenion ymchwil yn yr Adran Meddygaeth Niwclear.

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig cyflogwr ar wahân ar waith ar gyfer yr uned PET-CT symudol. Disgrifiodd hyn y trefniadau llywodraethu uchod. Fodd bynnag, ni wnaeth y weithdrefn ysgrifenedig ddisgrifio'r broses i sicrhau na wnaeth y cleifion unigol ragori ar y cyfyngiad dosau ar gyfer pob cysylltiad sy'n digwydd mewn treial ymchwil.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiweddarau'r weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwil er mwyn iddi ddisgrifio'n glir y broses o sicrhau nad oedd y cleifion unigol yn rhagori ar y cyfyngiad dosau ar gyfer pob cysylltiad sy'n digwydd mewn treial ymchwil.

Hawliau

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith gan y cyflogwr i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr o fewn maes ymarfer penodedig yn yr Adran Meddygaeth Niwclear.

Roedd gan y cyflogwr hefyd weithdrefn ysgrifenedig ar wahân, addas ar waith ar gyfer yr uned PET-CT symudol.

Gwnaethom gadarnhau mai cyfrifoldeb y cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear Ysbyty oedd hawl yr atgyfeirwyr mewn perthynas ag archwiliadau meddygaeth niwclear, sganiau PET-CT a therapi meddygaeth niwclear.

Cyfrifoldeb y cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol, yn y drefn honno, oedd hawl yr ymarferwyr a'r gweithredwyr sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol.

Roedd y ddogfen lywodraethu'n anghyson mewn perthynas â'r uchod a dylid ei hadolygu er mwyn adlewyrchu'n glir y trefniadau o ran hawliau a ddisgrifir uchod.

Adnabod Cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith i adnabod yr unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio a gyflawnir yn yr Adran Meddygaeth Niwclear yn gywir.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar wahân, addas ar waith ar gyfer sganiau a gyflawnwyd yn yr uned PET-CT symudol.

Roedd y ddau yn cynnwys manylion y camau i'w cymryd gan ddeiliaid dyletswydd lle na all cleifion nodi pwy ydynt. Yn ogystal, roedd y ddwy weithdrefn ysgrifenedig yn mynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hynny lle roedd mwy nag un gweithredwr yn rhan o'r archwiliad neu'r sgan.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y camau y byddent yn eu cymryd i adnabod cleifion yn gywir cyn cyflawni archwiliadau neu sganiau. Roedd hyn yn gyson â gweithdrefn y cyflogwr perthnasol.

Unigolion o Oedran Beichiogi (Holi am Feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwneud ymholiadau mewn perthynas ag unigolion o oedran beichiogi i sefydlu a yw'r unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a allai hynny fod yn bosibl ar gyfer archwiliadau sy'n cael eu cyflawni yn yr Adran Meddygaeth Niwclear. Dywedwyd wrthym fod hon yn y broses o gael ei diweddarau i ystyried canllawiau¹ a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Radiograffwyr a chanllawiau² a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol (ARSAC).

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar wahân ar waith hefyd ar gyfer sganiau a oedd yn cael eu cyflawni mewn uned PET-CT symudol. Dywedwyd wrthym fod hon hefyd yn y broses o gael ei hadolygu er mwyn darparu rhagor o eglurder i ddeiliaid dyletswydd ar y weithdrefn gywir i'w dilyn.

Gwnaethom nodi y gallai rhai gwelliannau gael eu gwneud i egluro'r ddwy weithdrefn ysgrifenedig.

Mae'n ofynnol i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer gwneud ymholiadau ynghylch unigolion o oedran beichiogi i gadarnhau a yw'r unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a oes posibilrwydd o hynny:

- felly bydd y siart lif yn cynnwys mwy o fanylion i arwain deiliaid dyletswydd o ran pryd i wneud yr ymholiad a'r opsiynau holi gwahanol

¹ Canllawiau statws beichiogrwydd cynhwysol ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio: Cysylltiadau diagnostig a therapiwtig - https://www.sor.org/getmedia/1d256f96-40cb-4eeb-b120-90fe27daf7e9/Inclusive-Pregnancy-Status-Guidelines-for-Ionising-Radiation_LLv2

² ARSAC notes for guidance: good clinical practice in nuclear medicine - <https://www.gov.uk/government/publications/arsac-notes-for-guidance>

- dangos yn glir i bwy y dylid gwneud ymholiadau a sut y caiff hyn ei reoli mewn ffordd sensitif.

Mae'n ofynnol i gyflogwr yr uned PET-CT symudol ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer gwneud ymholiadau ynghylch unigolion o oedran beichiogi i gadarnhau a yw'r unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a oes posibilrwydd o hynny:

- fel bod y weithdrefn i staff yn glir ac yn cyfeirio at yr amgylchiadau lle y dylid ystyried prawf beichiogrwydd.

Er y gwnaethom nodi y gallai'r gweithdrefnau ysgrifenedig fod yn gliriach, cawsom sicrwydd fod staff yn gwneud ymholiadau addas mewn perthynas â beichiogrwydd a bwydo ar y fron.

Manteision a Risgiau

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhoi gwybodaeth ddigonol i gleifion am fanteision cael yr archwiliad neu'r sgan (cysylltiad) a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dos ymbelydredd.

Gwelsom fod posteri sy'n esbonio'r risg a'r manteision yn cael eu dangos yn glir yn ardaloedd aros yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol i gleifion eu gweld.

Dywedwyd wrthym fod cleifion wedi cael taflen wybodaeth i gleifion cyn eu harchwiliad neu sgan ac wedi gweld bod gwybodaeth am y manteision a'r risgiau wedi'u cynnwys yn y daflen. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff yn ailadrodd y wybodaeth hon i gleifion ar lafar pan fyddent yn dod am eu harchwiliad.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am fanteision neu risgiau eu harchwiliad neu sgan.

Gwerthusiadau Clinigol

Dywedwyd wrthym fod y gwerthusiad clinigol o archwiliadau a oedd yn cael eu cyflawni yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r sganiau a oedd yn cael eu cyflawni yn yr uned PET-CT yn cael eu trefnu a'u rheoli gan y bwrdd iechyd. Felly, roedd cyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear yn gyfrifol am sefydlu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer gwerthusiad clinigol.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith. Nododd hyn yn glir ei bod yn gymwys i bob archwiliad meddygaeth niwclear, gan gynnwys sganiau PET-CT a oedd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty.

Gwnaethom nodi y gellid gwneud rhai gwelliannau i egluro'r weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â'r trefniadau i brynu gwerthusiad clinigol a gwerthusiad clinigol therapïau meddygaeth niwclear.

Mae'n ofynnol i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr gyfer y gwerthusiad clinigol o gysylltiadau:

- er mwyn adlewyrchu'n gywir y trefniadau i brynu gwerthusiad clinigol o rai sganiau PET-CT yn unol â disgrifiad uwch-aelodau o staff
- cynnwys y trefniadau i gynnal gwerthusiad clinigol o therapïau meddygaeth niwclear.

Cyfeiriwyd at ddeiliaid dyletswydd penodedig i ddarparu gwerthusiad clinigol. Yn ogystal, cyfeiriwyd hefyd at y weithdrefn ysgrifenedig i ddeiliaid dyletswydd eraill a restrir ar 'gofrestrau hawliau'. Gall y cyflogwr ddymuno adolygu'r dull hwn a chyfeirio staff at un pwynt cyfeirio lle mae'r deiliaid dyletswydd hyn wedi'u cofnodi.

Cysylltiadau â Delweddu Anfeddygol

Dywedwyd wrthym nad oedd cysylltiadau â delweddu anfeddygol yn cael eu cyflawni yn yr Adran Meddygaeth Niwclear na'r uned PET-CT symudol. Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr a oedd ar waith ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol yn nodi mai dyma oedd yr achos.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Archwiliad Clinigol

Cawsom enghreifftiau o'r archwiliadau clinigol a gynhaliwyd ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol.

Er bod enghreifftiau da o archwiliadau clinigol wedi'u darparu ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear, fel optimeiddio cysylltiadau ar gyfer archwiliadau parathyroid, nid oedd rhywfaint o wybodaeth allweddol yn cael ei chynnwys bob amser. Nid oeddent yn dangos y canlyniad yn glir bob amser, sut y gweithredir arno, yr unigolyn sy'n gyfrifol am gwblhau'r camau gweithredu a dyddiad ar gyfer cwblhau.

Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos yn glir ganlyniad

archwiliadau clinigol, y camau i'w cymryd, yr unigolyn sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a'r dyddiad ar gyfer cwblhau.

Yr enghreifftiau a ddarparwyd ar gyfer yr uned PET-CT symudol i'w hystyried gan AGIC yw archwiliadau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn hytrach nag archwiliadau clinigol.

Mae'n ofynnol i gyflogwr yr uned PET-CT symudol roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gyflawni archwiliad clinigol yn unol â diffiniad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, gan ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Cysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer adrodd ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sy'n ymwneud ag ymbelydredd, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a'u dadansoddi ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar wahân y cyflogwr hefyd ar waith ar gyfer cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol ar gyfer yr uned PET-CT symudol.

Gwelsom fod y ddwy weithdrefn ysgrifenedig yn cyfeirio at ganllawiau a gytunwyd ar y cyd gan awdurdodau gorfodi Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddarau ym mis Ebrill 2023. Felly, dylai'r ddwy weithdrefn ysgrifenedig gael eu hadolygu gan ystyried y canllawiau wedi'u diweddarau³. Dylid rhoi sylw penodol i sicrhau bod y gweithdrefnau ysgrifenedig yn ystyried y meini prawf hysbysu sy'n gymwys yng Nghymru.

Roedd y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r claf wedi'u disgrifio'n dda yn y gweithdrefnau ysgrifenedig.

Mewn perthynas â'r uned PET-CT symudol, cawsom enghreifftiau da o ddysgu o ddigwyddiadau ac 'achosion a fu bron â digwydd'.

Dywedwyd wrthym nad oedd rhaglen sicrhau ansawdd y cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear yn cynnwys astudiaeth o'r risg o gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â therapi meddygaeth niwclear. Byddai hyn o gymorth i nodi risgiau hysbys er mwyn gallu rhoi mesur rheoli priodol ar waith.

Mae'n ofynnol i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i'w cynnwys yn rhaglen sicrhau ansawdd y cyflogwr neu

³ Amlygiadau damweiniol ac anfwriadol sylweddol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) Canllawiau i gyflogwyr a deiliaid dyletswyddau- [20200826 SAUE guidance updated August 2020 \(W\).pdf \(agic.org.uk\)](https://www.agic.org.uk/20200826_SAEU_guidance_updated_August_2020_(W).pdf)

astudiaeth o risg ar gyfer cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â therapi meddygaeth niwclear.

Dyweddodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Nodwyd gennym fod hon yn arfer ganmoladwy a oedd yn hyrwyddo diogelwch cleifion. Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym fod eu sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn deg (22/25), yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto (23/25) ac yn rhoi adborth iddynt am newidiadau a wnaed mewn ymateb i hynny (22/25). Roedd y gweddill yn anghytuno.

Dyletswyddau'r Ymarferydd, y Gweithredwr a'r Atgyfeiriwr

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda.

Dangosodd y sampl o ffurflenni atgyfeirio a archwiliwyd gennym fod atgyfeiriadau i'r Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol wedi'u gwneud yn unol â'r canllawiau atgyfeirio sefydledig. Gwelsom fod y ffurflenni'n cynnwys manylion clinigol digonol a'u bod wedi cael eu cwblhau'n briodol.

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a oedd yn dangos bod trefniadau addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth staff â gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr a ddefnyddiwyd yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol.

Cyfiawnhad dros Gysylltiadau Unigol

Dyweddwyd wrthym fod cysylltiadau a gyflawnwyd yn yr Adran Meddygaeth Niwclear wedi'u cyfiawnhau a'u hawdurdodi gan ymarferwyr sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear sydd â'r hawl i wneud hynny. Gallai gweithredwyr hefyd awdurdodi cysylltiadau yn unol â'r Canllawiau Awdurdodi Diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr ymarferydd.

Cafodd pob cysylltiad a gyflawnwyd yn yr uned PET-CT symudol eu cyfiawnhau a'u hawdurdodi gan ymarferwyr sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear sydd â'r hawl i wneud hynny. Felly, roedd gan gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear gyfrifoldeb am sefydlu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn hyn o beth.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith. Nododd hyn yn glir ei bod yn gymwys i bob archwiliad meddygaeth niwclear, gan gynnwys sganiau PET-CT a oedd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty.

O gofio'r trefniadau a ddisgrifiwyd, nid oedd Canllaw Awdurdodi Diwygiedig ar waith, nac yn ofynnol, ar gyfer gweithredwyr sy'n gweithio yn yr uned PET-CT symudol i awdurdodi sganiau. Fodd bynnag, cyfeiriodd y ddogfen lywodraethu at Ganllaw Awdurdodi Diwygiedig i weithredwyr sy'n gweithio yn yr uned symudol ei-defnyddio. Roedd hyn yn anghyson â'r trefniadau y disgrifiwyd eu bod ar waith.

Roedd tystiolaeth o'r weithdrefn ysgrifenedig sy'n cael ei dilyn yn y sampl o ddogfennaeth atgyfeirio y gwnaethom edrych arno.

Ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear, dywedwyd wrthym fod cysylltiadau i ofalwyr neu gysurwyr yn cael eu cyfiawnhau a'u hawdurdodi gan ymarferwyr sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear sydd â'r hawl i wneud hynny. Gallai gweithredwyr hefyd awdurdodi cysylltiadau yn unol â'r Canllaw Awdurdodi Diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr ymarferydd.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr yn yr Adran Meddygaeth Niwclear. Dywedwyd wrthym y byddai'r awdurdodiad yn cael ei gofnodi ar ffurflen gydsynio i ofalwr neu gysurwr, ond ni wnaeth y weithdrefn ysgrifenedig ddisgrifio hyn.

Mae'n ofynnol i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i adolygu a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau, er mwyn iddo ddisgrifio'n glir y weithdrefn ar gyfer cofnodi'r broses o awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr neu gysurwyr.

Gwnaethom hefyd adolygu'r Canllaw Awdurdodi Diwygiedig ar gyfer cysylltiadau i ofalwyr neu gysurwyr a theimlwyd y gallai gynnwys mwy o fanylion mewn perthynas â'r meini prawf y mae gweithredwyr yn eu dilyn ac i fod yn gyson â gweithdrefn y cyflogwr.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC o fanylion y camau a gymerwyd i adolygu a diweddarau'r Canllaw Awdurdodi Diwygiedig ar gyfer awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr neu gysurwyr, a hynny gan weithredwyr a chanddynt yr hawl, er mwyn iddo gynnwys mwy o fanylion mewn perthynas â'r meini prawf y mae gweithredwyr yn eu dilyn a bod yn gyson â gweithdrefn y cyflogwr.

Dywedwyd wrthym fod gweithredwyr sy'n gweithio yn yr uned PET-CT symudol wedi cael hawl fel ymarferwyr i gyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr neu gysurwyr mewn rhai lleoliadau. Fodd bynnag, nid oedd hyn ar waith ar y safle eto. Yr ymarferydd ar gyfer gweinyddu'r gweithgarwch ymbelydrol oedd yr ymarferydd ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr neu gysurwyr.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar waith yn hyn o beth ac roedd yn cynnwys manylion ynghylch sut y dylid cofnodi awdurdodiad.

Gwnaethom gadarnhau bod gan y cyflogwr a'r ymarferwyr drwyddedau dilys er mwyn cynnal cysylltiadau bwriadol sy'n cynnwys defnyddio sylweddau ymbelydrol.

Optimeiddio

Disgrifiwyd trefniadau addas o ran sut mae ymarferwyr a gweithredwyr yn sicrhau y caiff cysylltiadau eu cyflawni yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys sut mae ymarferwyr a gweithredwyr yn rhoi sylw penodol mewn perthynas ag unigolion lle na ellir eithrio beichiogrwydd, unigolion sy'n bwydo ar y fron a chysylltiadau sy'n cynnwys dosau uchel i'r unigolyn.

Pediatreg

Dywedwyd wrthym nad oedd yr Adran Meddygaeth Niwclear yn cyflawni archwiliadau meddygaeth niwclear ar blant yn rheolaidd. Fodd bynnag, lle mai dyma oedd yr achos, disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer optimeiddio'r cysylltiadau hynny. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau lefelau cyfeirio diagnostig, lleihau gweithgareddau a ddefnyddir gan oedolion yn unol â phwysau plentyn a gweithredwyr yn addasu protocolau clinigol yn unol â hynny.

Dywedwyd wrthym nad oedd sganiau o blant yn cael eu cyflawni ar yr uned PET-CT symudol.

Gofalwyr neu Gysurwyr

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig gan y cyflogwr er mwyn pennu cyfyngiadau dosau a rhoi canllawiau ar gysylltiadau a fyddai'n effeithio ar ofalwyr neu gysurwyr yr Adran Meddygaeth Niwclear. Roedd hyn yn nodi'r cyfyngiadau dos ar gyfer pob archwiliad meddygaeth niwclear yn glir.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar wahân ar waith hefyd ar gyfer cysylltiad i ofalwyr a chysurwyr ar gyfer yr uned PET-CT symudol. Y cyfyngiad dos a nodir yng ngweithdrefnau ysgrifenedig cyffredinol y cyflogwr oedd 'cyfyngiad dos y corff cyfan yw 1mSv y flwyddyn'. Roedd hyn yn wahanol i'r cyfyngiad o '0.5mSV' a ddisgrifiwyd yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ymwneud yn benodol â gofalwyr a chysurwyr. Felly, dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod y ddwy ddogfen yn gyson.

Cyngor Arbenigol

Gwnaethom gadarnhau fod y cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a

chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Cyfarpar: Dyletswyddau Cyffredinol y Cyflogwr

Mae angen i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear a chyflogwr yr uned PET-CT symudol wneud trefniadau sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran neu'r uned.

Disgrifiwyd bod trefniadau addas ar gyfer cynnal profion derbyn ar gyfarpar newydd, cynnal profion perfformiad rheolaidd a chynnal profion perfformiad ar ôl unrhyw waith cynnal a chadw ar y cyfarpar.

Yn ogystal, disgrifiwyd proses addas ar gyfer nodi, rhoi gwybod ac uwchgyfeirio diffygion ar gyfarpar i uwch aelodau o staff er mwyn gallu cymryd camau priodol. Roedd hyn cynnwys symud cyfarpar o'r gwasanaeth.

Roedd rhestrau o gyfarpar diweddar ar gyfer cyfarpar yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol ar gael ac wedi'u darparu i AGIC.

Gwelsom fod y rhestr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Fodd bynnag, nid oedd y rhestr ar gyfer yr uned PET-CT symudol yn cynnwys rhif cyfresol y cyfarpar nac unrhyw ddynodwr unigryw arall, y flwyddyn gynhyrchu na'r flwyddyn y cafodd ei osod.

Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y rhestr o gyfarpar yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan IR(ME)R 2017. Mae hyn yn cynnwys enw'r gwneuthurwr, y rhif cyfresol neu'r dynodwr unigryw arall, y flwyddyn gynhyrchu a'r flwyddyn gosod.

Diogel

Rheoli Risg

Mae amgylchedd yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol i'w gweld yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mewn cyflwr da.

Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg i iechyd a diogelwch y staff sy'n gweithio yn yr adran neu'r uned symudol nac i'r cleifion ac unigolion eraill sy'n ymweld â'r ardaloedd hyn. Roedd arwyddion clir i hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr i beidio â mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd archwiliadau neu sganiau'n cael eu cyflawni.

Yn ystod ein taith o'r adran a'r uned symudol, roedd hi'n amlwg bod staff yn rhoi pwyslais ar ddiogelwch cleifion ac ymwelwyr.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn fodlon ar yr ymdrechion a wnaed gan eu sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel.

Gwelsom fod cyfeiriadau da i ardaloedd derbynfa'r Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC (25/27) wrthym y gallent ddod o hyd i'r adran neu'r uned yn hawdd.

Roedd yr ardaloedd aros o faint addas, ac roedd digon o seddi ar gael ar gyfer nifer y cleifion sy'n mynychu.

Roedd yr uned symudol mewn ardal ddynodedig ar dir yr ysbyty a gerllaw prif adeilad yr ysbyty. Roedd ardal y dderbynfa ar gyfer yr uned symudol wedi'i lleoli ym mhrif adeilad yr ysbyty. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cyfarch y cleifion yn yr ardal hon ac yn eu hebrwng i'r uned symudol er mwyn hyrwyddo diogelwch y cleifion.

Roedd mynediad gwastad i'r adran, a oedd yn ei gwneud yn hygyrch i gleifion. Yn yr un modd, gellid mynd i'r uned PET-CT symudol trwy'r grisiau neu drwy lifft sydd ynghlwm â'r uned, sy'n golygu ei bod o fewn cyrraedd y cleifion.

Roedd toiledau dynodedig ar gael i'r cleifion sy'n mynychu'r Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol ac roedd arwyddion clir iddynt er mwyn lleihau'r risg o gysylltiad anfwriadol i ymbelydredd gan ymwelwyr â'r ysbyty.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd pob ardal o'r Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol yr oedd modd i gleifion eu cyrraedd i'w gweld yn lân a threfnus. Roedd y cyfarpar a welsom i'w weld yn lân hefyd. Disgrifiodd y staff fod y cyfarpar yn cael ei lanhau a'i ddihalogi rhwng pob claf.

Roedd y lloriau a'r dodrefn yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol yn hwyluso glanhau effeithiol.

Gwelsom fod gan gleifion a staff fynediad i gyfleusterau golchi a sychu dwylo addas. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod yr amgylchedd yn 'lân iawn'. Yn ogystal, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (24/27) wrthym fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn

eu barn nhw, gyda'r gweddill naill ai'n dweud wrthym fod mesurau'n cael eu dilyn yn rhannol (1/27) neu drwy ddweud wrthym nad oeddent yn gwybod (2/27).

Dyweddodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod eu sefydliad yn rhoi polisi rheoli heintiau effeithiol ar waith a bod yr amgylchedd yn caniatáu ar gyfer glanhau effeithiol. Dywedodd y mwyafrif o'r staff (24/25) wrthym hefyd fod PPE priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio.

Diogelu Plant a Diogelu Oedolion

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau diogelu'r sefydliad a ble i ddod o hyd i'r rhain. Roedd y staff hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Yn ogystal, cadarnhaodd y staff eu bod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur (24/25) wrthym pe byddent yn poeni am ymarfer anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Pan ofynnwyd a oeddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon, dywedodd y mwyafrif o'r staff (22/25) wrthym eu bod yn hyderus, a dywedodd y gweddill nad oeddent yn hyderus (1/25) neu nad oeddent yn gwybod (2/25). Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (15/25) wrthym eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon, gyda'r gweddill yn dweud nad oeddent yn hyderus (2/25) neu nad oeddent yn gwybod (6/25). O ystyried yr ymatebion, mae'n bosibl yr hoffai'r uwch aelodau o staff archwilio hyn ymhellach.

Effeithiol

Cadw Cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion atgyfeirio 16 o gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cleifion yn cael archwiliadau yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a sganiau yn yr uned PET-CT symudol.

Roedd gan y sampl a welsom gynllun clir ac roeddent wedi cael eu cwblhau'n llawn ar y cyfan.

Gwnaethant ddangos tystiolaeth o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr perthnasol, fel gwiriadau adnabod cleifion a chadarnhad o feichiogrwydd, sy'n cael eu dilyn gan ddeiliaid dyletswydd. Gwnaethant hefyd ddangos tystiolaeth o gysylltiadau a oedd wedi'u hawdurdodi, ac felly eu cyfiawnhau, a bod gwerthusiad clinigol wedi'i gwblhau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cafwyd adborth cadarnhaol ym mhob un o'r meysydd a ystyriwyd ar y cyfan.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n teimlo y gallwn ddarparu gofal effeithiol, o ansawdd da ar lefel cleifion unigol. Yr hyn rydym yn cael trafferth ag ef yw'r niferoedd, felly mae pobl yn aros am fwy o amser nag yr hoffwn er mwyn cael y gofal priodol.”

“Mae aelodau o'r staff (technolegwyr a staff cymorth) yn cydweithio'n dda iawn. Ceir ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm a helpu cydweithwyr ble bynnag y bo'n bosibl.”

“Yr amgylchedd gwaith gorau rydw i wedi gweithio ynddo...”

“Rwy'n teimlo ein bod yn ymdrechu'n gyson i wella er budd ein cleifion.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Nid oedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ei gyfleusterau ei hun i ddarparu gwasanaeth PET-CT. Darparwyd hyn ar ran y bwrdd iechyd gan InHealth, sef darparwr gofal iechyd annibynnol, gan ddefnyddio uned PET-CT symudol a oedd yn ymweld â safle'r ysbyty yn rheolaidd.

Y Prif Weithredwr ar gyfer y bwrdd iechyd a'r Prif Weithredwr ar gyfer y darparwr annibynnol oedd y cyflogwyr dynodedig o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Cafodd y trefniadau cydweithio a llywodraethu ar gyfer darparu'r gwasanaeth PET-CT eu nodi mewn dogfen lywodraethu y cytunwyd arni. Roedd yr uwch aelodau o staff wedi nodi bod angen adolygu'r ddogfen hon er mwyn iddi adlewyrchu'r trefniadau gweithio a llywodraethu presennol yn fwy cywir.

Roedd strwythurau rheoli ar waith ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol. Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir yn ystod yr arolygiad.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff a oedd yn cynrychioli'r ddau sefydliad systemau priodol i fonitro ac adrodd ar ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol. Gwnaethant hefyd

ddangos ymrwymiad cryf i ddysgu o arolygiad AGIC ac i gymryd camau i wneud gwelliannau lle bo angen.

Dywedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y sefydliad.

Dywedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (21/25) wrthym y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle da i weithio ynddo. Yn ogystal, dywedd y mwyafrif wrthym fod eu sefydliad yn gefnogol (23/25), yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau (23/25) ac yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen (22/25). Roedd y gweddill yn anghytuno.

Pan ofynnwyd am eu rheolwr uniongyrchol, dywedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (20/23) wrthym y gellid dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith. Dywedd y mwyafrif (21/25) wrthym fod eu rheolwr yn rhoi adborth clir iddynt ar eu gwaith. Yn ogystal, dywedd y mwyafrif (21/25) wrthym fod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith. Roedd y gweddill yn anghytuno.

Pan ofynnwyd am eu huwch-reolwyr, dywedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (22/25) wrthym hefyd fod uwch-reolwyr yn weladwy a dywedd y rhan fwyaf (18/25) wrthym fod y prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Roedd y gweddill yn anghytuno. O gofio'r ymateb hwn, hwyrach y byddai uwch-aelodau o'r staff yn dymuno archwilio hyn ymhellach.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym yn teimlo bod yr uwch-reolwyr wedi ymrwymo i ofal cleifion.

Dywedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (24/25) wrthym fod eu sefydliad yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn ogystal, dywedd y mwyafrif (24/25) wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael mynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle. Roedd yn well gan y gweddill beidio â dweud.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith (o fewn y 12 mis diwethaf), dywedd y mwyafrif o'r staff (23/25) wrthym nad oeddent. Dywedd y gweddill wrthym naill ai eu bod wedi neu y byddai'n well ganddynt beidio â dweud.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Cawsom fanylion y niferoedd a chymysgedd sgiliau'r staff sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol neu ar eu rhan. Roedd y staff yn

cynnwys Radiolegwyr Ymgynghorol, Cardiolegwyr Ymgynghorol, Arbenigwr Cyswllt Cardioleg, Radiograffwyr, Technolegwyr Clinigol, Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, Gwyddonwyr Clinigol, Radiofferylllydd a Thechnegwyr Radiofferyllol.

Disgrifiodd cynrychiolwyr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear rai heriau mewn perthynas â chael digon o Radiolegwyr Ymgynghorol ac Arbenigwyr Ffiseg Feddygol. Disgrifiwyd trefniadau i liniaru yn erbyn hyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu.

Ni chodwyd unrhyw bryderon yn ymwneud â chapasiti staffio'r uned PET-CT symudol.

Roedd yn amlwg bod y timau o staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da i gleifion a oedd yn mynychu ar gyfer eu harchwiliad neu sgan.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (17/25) yn teimlo bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Dywedodd y mwyafrif o'r staff (20/25) wrthym nad oeddent yn gallu ateb y galwadau croes yn ystod eu hamser yn y gwaith. Roedd y gweddill yn anghytuno.

Pan ofynnwyd am eu hiechyd a'u llesiant yn y gwaith, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (18/25) wrthym nad oedd eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd. Dywedodd y mwyafrif (21/25) o'r staff wrthym fod eu patrwm gwaith yn caniatáu ar gyfer cyflawni cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd. Dywedodd y mwyafrif (20/25) wrthym hefyd fod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant. Roedd y gweddill yn anghytuno. Roedd y mwyafrif o'r staff (23/25) yn ymwybodol o'r cymorth lechyd Galwedigaethol a oedd ar gael iddynt.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (24/25) wrthym fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwad a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith. Yn yr un modd, dywedodd y mwyafrif (24/25) wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TGCh sydd eu hangen arnynt i roi gofal a chymorth da i gleifion.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn llawn gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant a hawliau ar gyfer pum aelod o staff a oedd yn gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear neu'r uned PET-CT symudol. Roedd y rhain yn dangos, ar y cyfan, fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w rôl ac fel y bo'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, cafodd y staff hawl i gyflawni eu rolau deiliaid dyletswydd a manylion eu maes ymarfer. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai gwelliannau y gellid eu gwneud i'r cofnodion.

Nid oedd y cofnodion ar gyfer staff sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol yn dangos pryd y cynhaliwyd adolygiadau i sicrhau bod y staff yn parhau i allu cyflawni eu rolau. Nid oedd y cofnodion ar gyfer staff sy'n gweithio yn yr uned PET-CT symudol yn dangos yr holl ddarnau cyfarpar y byddent yn eu defnyddio a gellid gwneud eu maes ymarfer yn gliriach.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod ymarferwyr a gweithredwyr yn parhau i allu cyflawni eu rolau.

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod ymarferwyr a gweithredwyr wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r holl gyfarpar perthnasol a ddefnyddir ganddynt, er mwyn dangos eu maes ymarfer unigol yn glir ac i ddangos eu bod yn parhau i allu cyflawni eu rolau.

Dyweddodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (24/25) wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Atebodd y gweddill (1/25) y cwestiwn drwy ddweud 'yn rhannol'.

Pan ofynnwyd iddynt pa hyfforddiant arall fyddai'n ddefnyddiol, roedd sylwadau'r staff yn cynnwys:

“Hyfforddiant gosod canwlâu”

“Hyfforddiant rheoli prosiectau”

Dyweddodd y mwyafrif o'r staff (23/25) a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y gweddill wrthym nad oeddent wedi cael arfarniad.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn glir i'r cleifion am sut y gallent roi adborth neu wneud cwyn ar eu profiadau o ymweld â'r Adran Meddygaeth Niwclear neu'r uned PET-CT symudol. Gallai'r cleifion roi adborth gan ddefnyddio llechi electronig sydd wedi'u lleoli yn yr ardal oedd aros neu drwy ddefnyddio dyfais symudol addas i sganio cod WR i gael gafael ar ffurflen adborth electronig.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth gwblhau holiadur (17/27) ddweud wrthym y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn, dywedodd y gweddill (10/27)

wrthym na fyddent yn gwybod. Hwyrach y byddai'r bwrdd iechyd a'r darparwr gwasanaeth annibynnol ddymuno ystyried sut y gallant wneud cleifion yn ymwybodol o sut y gallant wneud cwyn.

Nid oedd gwybodaeth am y ffordd y caiff adborth cleifion ei ddefnyddio gan yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol er mwyn gwneud newidiadau i'r gwasanaeth yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros. Byddai hyn yn helpu i gyfleu'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i'w hadborth i'r cleifion.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gyfleu i'r cleifion sut mae adborth cleifion wedi'i ddefnyddio i wneud newidiadau.

Pan ofynnwyd am adborth gan gleifion, dywedodd y mwyafrif o'r staff (24/25) a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod hwn wedi'i gasglu yn eu hardal a dywedodd y gweddill nad oeddent yn gwybod. Dywedodd y mwyafrif o'r staff (19/25) wrthym eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion, gyda'r gweddill yn dweud wrthym nad oeddent (5/25) neu nad oeddent yn gwybod (1/25). Pan ofynnwyd a oedd adborth yn cael ei ddefnyddio i hysbysu penderfyniadau a wnaed yn eu hardal, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (14/25) ei fod yn cael ei ddefnyddio, gyda'r gweddill yn dweud nad oedd yn cael ei ddefnyddio (3/25), neu nad oeddent yn gwybod (8/25). O ystyried yr ymatebion, gall yr uwch aelodau o'r staff ddymuno archwilio hyn ymhellach.

Disgrifiodd y cynrychiolwyr drefniadau addas ar gyfer cofnodi, ymchwilio ac ymateb i gwynion neu bryderon gan gleifion am yr Adran Meddygaeth Niwclear neu'r uned PET-CT symudol. Gwnaethant hefyd ddisgrifio system addas i reoli a rhannu gwybodaeth am gwynion, yn dibynnu ar ba agwedd ar y gwasanaeth dderbyniodd y gŵyn neu'r pryder.

Cadarnhaodd y ddau sefydliad bod gweithdrefnau cwynion ysgrifenedig ar waith a bod y rhain ar gael i AGIC. Dywedwyd wrthym y byddai cwynion am wasanaethau a ddarparwyd (ar ran y bwrdd iechyd) gan yr uned PET-CT symudol yn cael eu rheoli dan weithdrefn y sefydliad annibynnol. Er bod y weithdrefn cwynion yn cynnwys cyfeiriadau at asiantaethau eraill yn Lloegr y gallai cleifion gyfeirio'u cwyn atynt, ni chafodd y cyfeiriad at y rhai yng Nghymru, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a LLAIS, eu cynnwys lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu yng Nghymru.

Roedd cynrychiolwyr y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n gymwys yng Nghymru. Gwnaethant gadarnhau bod uwch aelod o'r staff yn yr Adran Meddygaeth Niwclear yn gyfrifol am sicrhau bod y weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn cael ei dilyn yn gywir. Nid oedd y weithdrefn cwynion sy'n

ymwneud â'r uned PET-CT symudol yn cynnwys cyfeiriad at y trefniadau hysbysu dan y Ddyletswydd Gonestrwydd nac i'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y polisiau perthnasol yn cynnwys y canlynol:

- manylion y prosesau sydd ar gael i'r cleifion sy'n mynegi pryderon neu'n cwyno am yr uned PET-CT gymunedol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru ar ran y bwrdd iechyd
- manylion y weithdrefn hysbysu, yn benodol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, lle mae digwyddiadau'n digwydd yn yr uned PET-CT symudol.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod am y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall, eu bod yn deall eu rolau o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Gonestrwydd a bod eu sefydliad yn eu hannog i fynegi pryderon a dweud wrth gleifion pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith a oedd angen eu huwchgyfeirio.	-	-	-
-	-	-	-

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r Uned PET-CT Symudol, Ysbyty Singleton

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
-	Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.	-	-	-	-

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Yr Adran Meddygaeth Niwclear a'r Uned PET-CT Symudol, Ysbyty Singleton

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwelsom fod modd gwella'r ddarpariaeth hybu iechyd yn yr ardal aros ar gyfer yr uned PET-CT symudol.	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod deunydd hybu iechyd perthnasol ar gael yn hawdd i gleifion sy'n mynychu i gael sgan PET-CT.	Canolbwyntio ar y Claf	Bydd y deunyddiau hybu iechyd sy'n cael eu dangos yn yr ardaloedd aros yn y brif Adran Meddygaeth Niwclear yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr ardal aros PET-CT. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Poster</i>	Arweinydd y Tîm Clinigol	31/03/24
2. Gwelsom nad oedd modd adnabod staff sy'n siarad Cymraeg bob amser.	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i annog y staff hynny sy'n hapus i wneud hynny i	Canolbwyntio ar y Claf	Anfonwyd e-bost ar 23/11/23 yn annog y staff i wisgo bathodyn neu laniard (os ydynt yn hapus i wneud hynny).	Prif Wyddonydd Clinigol ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol	Wedi'i gwblhau (23/11/23)

	wisgo bathodyn neu laniard er mwyn dangos i'r cleifion eu bod yn hapus cyfathrebu yn Gymraeg.		Mae laniardau eisoes ar gael yn yr adran. Mae bathodynnau a laniardau 'Dysgwr' wedi'u harchebu. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Neges e-bost ar 23/11</i>	Meddygaeth Niwclear	
3. Gwelsom nad oedd dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cadarnhau bob amser.	Mae angen i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y staff yn ymwybodol y dylent ofyn i'r cleifion am yr iaith yr hoffent gyfathrebu drwyddi bob amser.	Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Neges e-bost i staff yn eu hannog i ofyn i gleifion (wrth iddynt gyrraedd neu dros y ffôn) yma iaith maent yn dymuno cyfathrebu ynddi <i>Tystiolaeth i'w darparu: Neges e-bost</i>	Arweinydd y Tîm Clinigol	31/01/24
4. Gwelsom nad oedd canllawiau atgyfeirio wedi'u sefydlu ar gyfer therapi meddygaeth niwclear.	Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sefydlu canllawiau atgyfeirio ar gyfer therapi meddygaeth niwclear ac i	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6 (5)(a)	Datblygu canllawiau atgyfeirio therapi ar y cyd â'r ymarferydd Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (deiliad trwydded ARSAC)	Dirprwy Bennaeth Meddygaeth Niwclear ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear	29/02/24

	sicrhau bod y rhain ar gael i'r atgyfeirwyr perthnasol.		Sicrhau bod y canllawiau atgyfeirio (iRefer a therapi) ar gael trwy wefan Gwasanaeth Meddygaeth Niwclear Abertawe. <i><u>Tystiolaeth i'w darparu: dogfen ganllaw a dolen i wefan.</u></i>		
5. Gwelsom y byddai gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig yn elwa ar gynnwys yr ystod fwyaf ac isaf o weithgarwch a weinyddwyd yn y tabl lefelau cyfeirio diagnostig.	Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gynnwys ystod fwyaf ac isaf y gweithgarwch a roddwyd o fewn gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr i ddefnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig.	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(f)	Gweithdrefn y Cyflogwr Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) - i ddefnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig (W.NM.RP.008) i gynnwys ystod dderbyniol ar gyfer y gweithgarwch a weinyddir. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Gweithdrefn y Cyflogwr</i>	Prif Wyddonydd Clinigol ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear	31/01/24

			<i>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) wedi'i diweddarau (W.NM.RP.008)</i>		
6. Gwelsom fod gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwneud ymholiadau mewn perthynas ag unigolion o oedran beichiogi i sefydlu yw unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a allai hynny fod yn bosibl, ac y byddai'n elwa ar fod yn gliriach.	<p>Mae'n ofynnol i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer gwneud ymholiadau ynghylch unigolion o oedran beichiogi i gadarnhau a yw'r unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a oes posibilrwydd o hynny:</p> <ul style="list-style-type: none"> • felly bydd y siart lif yn cynnwys mwy o fanylion i arwain deiliaid dyletswydd o ran pryd i wneud yr ymholiad a'r opsiynau holi gwahanol • disgrifio'n glir i bwy y dylid gwneud 	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(c)	Bydd Gweithdrefn y Cyflogwr Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 i gadarnhau statws beichiogrwydd a bwydo ar y fron (W.NM.RP.005) yn cael ei diweddarau i arwain deiliaid dyletswydd o ran pryd i wneud yr ymholiad a'r opsiynau holi gwahanol. Mae'r weithdrefn hefyd yn cynnwys i bwy y dylid gwneud ymholiadau. Trafodir hefyd y ffordd y caiff yr ymholiadau hyn eu gwneud.	Prif Wyddonydd Clinigol ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear	Wedi'i gwblhau

	ymholiadau a sut y caiff hyn ei reoli mewn ffordd sensitif.		<i>Tystiolaeth i'w darparu: Gweithdrefn y Cyflogwr (W.NM.RP.005) wedi'i diweddarau i gadarnhau statws beichiogrwydd a bwydo ar y fron</i>		
7. Gwelsom nad oedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer y gwerthusiad clinigol o gysylltiadau yn adlewyrchu'r trefniadau a ddisgrifiwyd yn glir.	<p>Mae'n ofynnol i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr gyfer y gwerthusiad clinigol o gysylltiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> er mwyn adlewyrchu'n gywir y trefniadau i brynu gwerthusiad clinigol o rai sganiau PET-CT yn unol â disgrifiad uwch-aelodau o staff cynnwys y trefniadau i gynnal gwerthusiad 	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(j)	<p>Diweddarau Gweithdrefn y Cyflogwr Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad clinigol ar gyfer pob cysylltiad meddygol (NM.RP.009) er mwyn adlewyrchu'n gywir drefniadau prynu sganiau PET-CT i mewn (ni chaiff archwiliadau meddygaeth niwclear eraill eu prynu i mewn ar hyn o bryd).</p> <p>Bydd y gwerthusiad clinigol o therapiau</p>	<p>Arweinydd y Tîm Clinigol</p> <p><i>(gweithred PET-CT)</i></p> <p>Dirprwy Bennaeth Meddygaeth Niwclear ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear</p> <p><i>(Gweithred therapi)</i></p>	29/02/24

	clinigol o therapïau meddygaeth niwclear.		<p>meddygaeth niwclear hefyd yn cael ei ddiweddarau yn NM.RP.009 yn unol â chanllawiau IPEM/SCoR/Coleg Brenhinol y Radiolegwyr: Goblygiadau ar gyfer ymarfer clinigol mewn radiotherapi</p> <p><i>Tystiolaeth i'w darparu: Gweithdrefn y Cyflogwr Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) wedi'i diweddarau (W.NM.RP.009)</i></p>		
8. Gwelsom fod angen cofnodi rhagor o fanylion am y broses archwilio clinigol.	Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos yn glir ganlyniad archwiliadau clinigol, y camau i'w cymryd, yr	IR(ME)R 2017 Rheoliad 7	Bydd Gweithdrefn y Cyflogwr (RP.051) yn cael ei diweddarau i gynnwys diffiniad ar gyfer Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ac Archwiliad Clinigol.	Prif Wyddonydd Clinigol ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear	31/01/2024

	unigolyn sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a'r dyddiad ar gyfer cwblhau.		Bydd yn cyfeirio hefyd at dempled archwilio newydd a thempled adroddiad archwilio, a fydd yn disgrifio'r broses ar gyfer rhoi gwybod am archwiliadau. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Gweithdrefn y Cyflogwr wedi'i diweddarau, templed archwilio newydd a thempled adroddiad archwilio</i>		
9. Gwelsom nad oedd gan y cyflogwr astudiaeth risg ysgrifenedig ar gyfer cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â therapi meddygaeth niwclear.	Mae'n ofynnol i gyflogwr yr Adran Meddygaeth Niwclear roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i'w cynnwys yn rhaglen sicrhau ansawdd y cyflogwr neu astudiaeth o risg ar gyfer cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â therapi meddygaeth niwclear.	IR(ME)R 2017 Rheoliad 8(2)	Cyflawni'r astudiaeth risg a chyhoeddi'r ddogfen derfynol yn unol â chanllawiau IPEM/SCoR/Coleg Brenhinol y Radiolegwyr: Goblygiadau ar gyfer ymarfer clinigol mewn radiotherapi. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Aseiad risg (dogfen</i>	Dirprwy Bennaeth Meddygaeth Niwclear ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear	31/05/24

			<i>wedi'i chyhoeddi) i'w rannu.</i>		
10. Gwelsom y byddai gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau yn elwa ar fod yn gliriach mewn perthynas â chofnodi'r awdurdodiad cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr.	Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau er mwyn iddi ddisgrifio'n glir y weithdrefn ar gyfer cofnodi awdurdodiad cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr.	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2(1)(n)	Diweddarau Gweithdrefn y Cyflogwr Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) er mwyn cadarnhau'r cyfyngiadau ar ddosau a chanllawiau ar gyfer cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr (W.NM.RP.013) i gynnwys y broses ar gyfer cofnodi'r gwaith o awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Gweithdrefn wedi'i diweddarau ar gyfer cadarnhau'r cyfyngiadau ar ddosau a chanllawiau ar gyfer cysylltiad â gofalwyr a chysurwyr (W.NM.RP.013)</i>	Prif Wyddonydd Clinigol ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear	29/02/24

<p>11. Gwelsom y byddai'r Canllaw Awdurdodi Diwygiedig ar gyfer awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr yn elwa ar fod yn fanylach.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC o fanylion y camau a gymerwyd i adolygu a diweddarau'r Canllaw Awdurdodi Diwygiedig ar gyfer awdurdodi cysylltiadau i ofalwyr neu gysurwyr, a hynny gan weithredwyr a chanddynt yr hawl, er mwyn iddo gynnwys mwy o fanylion mewn perthynas â'r meini prawf y mae gweithredwyr yn eu dilyn a bod yn gyson â gweithdrefn y cyflogwr.</p>	<p>IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(n)</p>	<p><i>Diweddarau Cydsyniad i weithredu fel gofalwr a chysurwr ar gyfer cysylltiad meddygol (F.NM.RP.013) i gynnwys y meini prawf y bydd gweithredwyr yn eu dilyn yn unol â'r disgrifiad yng Ngweithdrefn y Cyflogwr: Y weithdrefn ar gyfer cadarnhau'r cyfyngiadau ar ddosau a'r canllawiau ar gyfer cysylltiad i ofalwyr a chysurwyr (W.NM.RP.013).</i></p> <p><i>Tystiolaeth i'w darparu: Cydsyniad wedi'i ddiweddarau i weithredu fel gofalwr a chysurwr ar gyfer cysylltiad meddygol (F.NM.RP.013)</i></p>	<p>Prif Wyddonydd Clinigol ac Arbenigwr Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear</p>	<p>29/02/24</p>
<p>12. Gwelsom y byddai'r cofnodion hyfforddi yn elwa ar fod yn</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear roi</p>	<p>IR(ME)R 2017 Rheoliad 17(1)</p>	<p><i>Mae Gweithdrefn Cyflogwr y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio</i></p>	<p>Prif Wyddonydd Clinigol ac Arbenigwr</p>	<p>31/05/24</p>

<p>fanylach i ddangos cymhwysedd parhaus.</p>	<p>manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod ymarferwyr a gweithredwyr yn parhau i allu cyflawni eu rolau.</p>		<p><i>(Cysylltiad Meddygol) W.NM.RP.002 yn disgrifio'r gweithdrefnau i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr neu ymarferydd neu weithredwr o fewn maes ymarfer penodedig. Bydd proses ailddilysu (ailasesu cymhwysedd ar ôl cyfnod penodol o amser) yn cael ei datblygu i sicrhau bod ymarferwyr a gweithredwyr yn parhau i fod y gymwys. Bydd Gweithdrefn y Cyflogwr uchod yn cael ei diwygio i'w dogfennu.</i></p> <p><i>Tystiolaeth i'w darparu: Roedd Gweithdrefn y Cyflogwr wedi'i diweddarau i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn</i></p>	<p>Ffiseg Feddygol Meddygaeth Niwclear</p>	
---	--	--	--	--	--

			<i>ymarferydd neu'n weithredwr o fewn maes ymarfer penodedig.</i>		
13. Gwelsom fod gwybodaeth ar gael ar y safle o ran y ffordd y gallai'r Adran Meddygaeth Niwclear a'r uned PET-CT symudol wella'r ffordd yr oedd yn gweithredu ar adborth gan gleifion.	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gyfleu i'r cleifion sut mae adborth cleifion wedi'i ddefnyddio i wneud newidiadau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal Diwylliant	Creu posteri arddangos i gael adborth gan gleifion, gan gynnwys tystiolaeth o ymdrechion 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Paratoi'r poster a'i rannu'n unol â hynny.</i>	Arweinydd y Tîm Clinigol	31/03/24
14. Gwelsom nad oedd y ddogfennaeth yn dangos yn glir y prosesau sydd ar gael i'r cleifion sy'n mynegi pryderon neu gwynion am yr uned PET-CT symudol na'r weithdrefn hysbysu mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y polisiau perthnasol yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • manylion y prosesau sydd ar gael i'r cleifion sy'n mynegi pryderon neu'n cwyno am yr uned PET-CT gymunedol ar gyfer gwasanaethau a 	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal Diwylliant	Creu llwybrau penodol i gael adborth a chwynion gan gleifion (gan gynnwys y Ddyletswydd Gonestrwydd) a sut rydym yn cyfathrebu ag InHealth (darparwr PET-CT) ar y mater hwn. <i>Tystiolaeth i'w darparu: Bydd gweithdrefn</i>	Arweinydd y Tîm Clinigol	31/03/24

<p>gyfer gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru ar ran y bwrdd iechyd.</p>	<p>ddarperir yng Nghymru ar ran y bwrdd iechyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • manylion y weithdrefn hysbysu, yn benodol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, lle mae digwyddiadau'n digwydd yn yr uned PET-CT symudol. 		<p><i>newydd yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith.</i></p>		
<p>15. Gwelsom nad oedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn disgrifio'r broses i sicrhau nad yw cleifion unigol wedi rhagori ar y cyfyngiad dosau ar gyfer pob cysylltiad sy'n digwydd mewn treial ymchwil.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiweddarau'r weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwil er mwyn iddi ddisgrifio'n glir y broses o sicrhau nad oedd y cleifion unigol yn rhagori ar y cyfyngiad dosau ar gyfer pob cysylltiad sy'n digwydd mewn treial ymchwil.</p>	<p>IR(ME)R 2017 Rheoliad 12(4)(c)</p>	<p>InHealth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddiweddarau'r ddogfen lywodraethu a gweithdrefnau ysgrifenedig cyflogwyr InHealth er mwyn cyfeirio'r broses o rannu data mewn perthynas â threialon ymchwil, cyfyngiadau dosau'r cleifion ar gyfer pob cysylltiad. Rhestrau clinig i'w rhannu'n ddyddiol rhwng y ddau sefydliad gan</p>	<p>Kelly Eberhard (Arweinydd Clinigol), Soraia Sousa (Pennaeth PET-CT) a Ralph Toop (Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Gwasanaethau PET-CT ac Arbenigol)</p>	<p>Ebrill 2024</p>

			gyfathrebu'n glir ynghylch unrhyw gleifion sy'n rhan o dreialon. InHealth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i drafod treialon sydd ar waith, treialon sydd ar ddod a chaeedig - a amlinellwyd yn y ddogfen lywodraethu y cytunwyd arni a gweithdrefnau ysgrifenedig cyflogwyr InHealth.		
16. Gwelsom fod gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwneud ymholiadau mewn perthynas ag unigolion o oedran beichiogi i sefydlu yw unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a allai hynny fod yn bosibl,	Mae'n ofynnol i gyflogwr yr uned PET-CT symudol ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio a diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer gwneud ymholiadau ynghylch unigolion o oedran beichiogi i gadarnhau a yw'r unigolyn yn feichiog neu'n	IR(ME)R 2017 Rheoliad 6(1)(a) Atodlen 2 (1)(c)	InHealth i adolygu ei weithdrefnau beichiogrwydd gyda chymorth ein Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd ac Arbenigwyr Ffiseg Feddygol i sicrhau bod ein gweithdrefnau yn gyson â'r canllawiau diweddaraf, gan	Kelly Eberhard (Arweinydd Clinigol), Soraia Sousa (Pennaeth PET-CT) a Ralph Toop (Cyfarwyddwr Gweithrediadau -	Ebrill 2024

<p>ac y byddai'n elwa ar fod yn gliriach.</p>	<p>bwydo ar y fron neu a oes posibilrwydd o hynny: fel bod y weithdrefn i staff yn glir ac yn cyfeirio at yr amgylchiadau lle y dylid ystyried prawf beichiogrwydd</p>		<p>ddilyn proses cam wrth gam, a pha gamau gweithredu i'w cymryd.</p>	<p>Gwasanaethau PET-CT ac Arbenigol)</p>	
<p>17. Gwelsom fod y rhaglen o archwiliadau clinigol yn gysylltiedig ag archwiliad o gydymffurfiaeth ag IR(ME)R.</p>	<p>Mae'n ofynnol i gyflogwr yr uned PET-CT symudol roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gyflawni archwiliadau clinigol yn unol â diffiniad IRMER (2017) a chan ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr.</p>	<p>IR(ME)R 2017 Rheoliad 7</p>	<p>1. InHealth i adolygu Archwiliadau Clinigol a nodi bylchau yn Amserlen bresennol Archwilio Clinigol, gyda chymorth Ffiseg Feddygol, yn ôl diffiniad canllawiau IRMER (2017) ac RCR, i'w dyfeisio a'u cwblhau (y ddau yn berthnasol i wasanaethau PET-CT cyffredinol InHealth a'r rheini sy'n cefnogi'r gwasanaeth sy'n gweithredu ym Mae Abertawe)</p>	<p>Kelly Eberhard (Arweinydd Clinigol), Soraia Sousa (Pennaeth PET-CT) a Ralph Toop (Cyfarwyddwr Gweithrediadau - PET-CT a Gwasanaethau Arbenigol)</p>	<p>1. 31 Mawrth 2024 2. 26 Ebrill 2024 (Cyfarfod GDY Ch2) 3. Diwedd mis Mai 2024 4. 26 Gorffennaf 2024 (Cyfarfod GDY Ch3) 5. Diwedd mis Mai 2024 Y rhaglen archwiliadau</p>

			<p>2. Nodwyd Archwiliadau Clinigol Ychwanegol i'w drafftio, a adolygwyd gan Ffiseg Feddygol ac a gymeradwywd yng nghyfarfodydd Gweithredol/Clinigol InHealth/Bae Abertawe a Chyfarfod Grŵp Diogelu rhag Ymbelydredd (GDY) InHealth.</p> <p>3. Bydd Amserlen Archwiliadau Clinigol InHealth yn cael ei chwblhau a bydd yr archwiliadau'n dechrau</p> <p>4. Canlyniadau archwiliadau i'w hadolygu, camau gweithredu wedi'u cytuno arnynt, eu cyflawni a'u hail-</p>	<p>clinigol bresennol yn unol â diffiniad y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (2017) a rannwyd ar 07.12.23.</p>
--	--	--	---	--

			<p>adolygu (yn unol ag amllder archwilio y cytunwyd arno) ac i'w drafod yng nghyfarfodydd Bae Abertawe a GDY</p> <p>5. Gweithdrefn Cyflogwr InHealth a Dogfen Lywodraethu Bae Abertawe i'w diweddarau er mwyn adlewyrchu'r Amserlen Archwiliadau Clinigol diwygiedig.</p>		
<p>18. Gwelsom nad oedd y rhestr cyfarpar yn cynnwys yr holl wybodaeth am gyfarpar sydd ei hangen gan Reoliadau 2017.</p>	<p>Mae angen i'r cyflogwr ar gyfer yr uned PET-CT symudol ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y rhestr o gyfarpar yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan IR(ME)R 2017. Mae hyn yn cynnwys enw'r gwneuthurwr, y rhif cyfresol neu ddynodwr unigryw arall, y flwyddyn</p>	<p>IR(ME)R 2017 Rheoliadau 15(1)(b) a 15(2)</p>	<p>Cofnod rhestr o gyfarpar InHealth (sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) (2017)) i'w ddiweddarau i gynnwys y gwneuthurwr, rhif cyfresol neu ddynodydd unigryw arall, blwyddyn gweithgynhyrchu a blwyddyn gosod.</p>	<p>Kelly Eberhard (Arweinydd Clinigol), Soraia Sousa (Pennaeth PET-CT) a Ralph Toop (Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Gwasanaethau</p>	<p>Chwefror 2024</p>

	gweithgynhyrchu a'r flwyddyn gosod.		Archwilio cynnwys yn chwarterol am gywirdeb.	PET-CT ac Arbenigol)	
19. Gwelsom y byddai'r cofnodion hyfforddi yn elwa ar fod yn fanylach i ddangos cymhwysedd parhaus.	Mae'n ofynnol i gyflogwr yr uned PET-CT symudol roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod ymarferwyr a gweithredwyr wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r holl gyfarpar perthnasol, er mwyn dangos eu maes ymarfer unigol yn glir ac i ddangos eu bod yn parhau i fod yn gymwys i gyflawni eu rolau.	IR(ME)R 2017 Rheoliad 17(1)	Dogfen lywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac InHealth i'w diweddarau i gynnwys gofyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i rannu tystiolaeth am gymhwysedd eu Hymarferwyr cyflogedig a chymhwysedd barhaus (er enghraifft - statws y Cyngor Meddygol Cyffredinol, arfarniad mewnol, sgorio archwiliadau) i InHealth i'w hadolygu gan dîm llywodraethu clinigol InHealth a'i chofnodi'n ganolog.	Kelly Eberhard (Arweinydd Clinigol), Soraia Sousa (Pennaeth PET-CT) a Ralph Toop (Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Gwasanaethau PET-CT ac Arbenigol)	Ebrill 2024

			<p>Bydd InHealth yn cynnal ailasesiad clinigol bob 2 flynedd i ddangos eu maes ymarfer unigol ac i ddangos eu cymhwysedd i gyflawni eu rolau. Caiff hyfforddiant gorfodol arall ei fonitro yn fisol a chedwir cofnod electronig yn ganolog a'i gadw mewn arfarniadau canol blwyddyn a blynyddol gyda'r rheolwr/rheolwyr llinell.</p>		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd gwasanaeth (Camau Gweithredu 1 - 14)

Enw (priflythrennau): CERI GIMBLETT

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Dros Dro y Grŵp Gwasanaeth, Ysbyty Treforys Gwasanaeth Castell-nedd Port Talbot a Singleton

Dyddiad: 29 Tachwedd 2023

Cynrychiolydd gwasanaeth (Camau Gweithredu 15 - 19)

Enw (priflythrennau): Ralph Toop

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Gwasanaethau PET-CT ac Arbenigol

Dyddiad: 07.12.2023